



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dyfodol y Gweithlu Nyrsio Band 4 yng Nghymru

Cam Dau – paratoi ar gyfer cyflwyno'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig

Adroddiad Terfynol

Cynnwys

<u>1.0 Diben</u>	3
<u>2.0 Cefndir</u>	3
<u>3.0 Cam 2</u>	5
<u>4.0 Bwrdd y Rhaglen</u>	9
<u>5.1 Is-grŵp Deddfwriaeth</u>	17
<u>5.2 Is-grŵp Paramedrau Ymarfer</u>	22
<u>5.3 Is-grŵp Addysg</u>	29
<u>5.4 Is-grŵp y Gweithlu</u>	42
<u>6.0 Ffrydiau Gwaith Ychwanegol</u>	53
<u>7.0 Cau Cam 2</u>	62
<u>8.0 Casgliad</u>	63
<u>9.0 Atodiadau</u>	64
<u>10.0 Cyfeiriadau</u>	118

***Mae'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig wedi cael ei ddisgrifio fel
y model gorau o ehangu mynediad i nyrsio yn Lloegr.
Mae'r rôl yn gyrchfan, gan wneud cyfraniad gwerthfawr at ofal
cleifion ac ychwanegiad gwerthfawr at y gweithlu nyrsio, a'r
hyn sy'n bwysig yw y gall fod yn gam tuag at ddod yn Nyrs
Gofrestredig hefyd.***

1.0 Diben

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r prosiect cenedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru, Band 4 (Nyrsio): Cam 2, gan ddisgrifio'r trefniadau llywodraethu, nodau ac amcanion a'r canlyniadau a gyflawnwyd. I bob pwrpas, mae'r cam hwn wedi gosod y sylfeini ar gyfer cyflwyno rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig i GIG Cymru yn y dyfodol, pan fydd y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol wedi eu gwneud. Mae'r gwaith sylweddol a wnaed yn ystod Cam 2 yn llywio Cam 3, a fydd yn canolbwyntio ar baratoi a gweithredu pellach.

2.0 Cefndir

Yn ystod Hydref 2022, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd y gallai prosiect cenedlaethol blwyddyn o hyd gael ei gomisiynu gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru (CNO), a'i arwain ganddo ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y prosiect, y cyfeirir ato fel Cam 1, rhwng Ionawr a Rhagfyr 2023 ac roedd yn cwmpasu'r opsiynau a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu'r gweithlu Nyrsio Band 4 ar gyfer GIG Cymru yn y dyfodol. Mae'r prosiect hwn wedi'i ddisgrifio fel yr adolygiad mwyaf arwyddocaol o Nyrsio yng Nghymru ers y penderfyniad i gyflwyno'r Nyrs raddedig yn 2004.

Roedd adroddiad Cam 1 yn cynnwys 20 o argymhellion, wedi'u hategu gan y dystiolaeth a chanfyddiadau allweddol y prosiect, fel y'u dangosir yn **Nhabl 1**. Roedd 4 argymhelliad yn ymwneud â pholisi (a ddangosir mewn testun porffor), 12 argymhelliad yn ymwneud ag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (a ddangosir mewn testun gwyrdd) a 4 argymhelliad arall yn ymwneud â Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau yng Nghymru (a ddangosir mewn testun coch).

Tabl 1: Argymhellion Cam 1

Recommendations			
R1 Only one band 4 Nursing role to exist in NHS Wales, that of the RNA, with the NMC as the regulator.	R6 Collaborate with the Council of Deans Health to supersede the HE Cert L4 & flexible route into nursing with the NMC RNA programme.	R11 Work with Universities to utilise the UCAS clearing process to increase the pool of candidates for RNA and RN programmes.	R16 Monitor & report Nursing workforce data against the 9 protected characteristics.
R2 Enact a centralised, Once for Wales, social partnership approach to defining the 'parameters of practice' distinguishing the RN from the RNA, avoiding substitution.	R7 Explore with the NMC the mapping of the HE Cert against the RNA Standards of Proficiency.	R12 Work with HB/Trusts to coordinate robust mapping and workforce planning of RNA commissioning, aligned to the IMTP process.	R17 Commence robust workforce mapping & planning with HEIW, aligned to IMTPs, preparing for the introduction of the RNA as a destination & stepping stone to RN.
R3 Mandate the dedicated provision of Practice Educator & Practice Facilitator support.	R8 Scope skills, qualifications & competencies of HCSWs who previously completed HE Cert L4 to explore a bridging programme to RNA.	R13 Secure transitional financial support for Practice Educators and Facilitators to support SNAs in practice and post registration.	R18 Through the transition phase from AP to RNA prioritise, support and sensitively manage existing APs.
R4 Ensure iterative improvements in Nursing monitoring and action against 9 protected characteristics.	R9 Collaborate with the Council of Deans Health to establish an all-Wales approach to building & mapping an L6 18 month bridging programme from RNA to BSc N	R14 Delegation & accountability to feature in education and development programmes, including induction for RNs and HCSWs (& RNAs in the future).	R19 Employ Practice Educators / Facilitators, based on HEIW funding, to support SNAs' learning in practice and post registration.
R5 Amend the current HCSW framework with a new workforce occupational code for RNA.	R10 A work-based learning model must feature highly within the HEIW commissioning approach for levels 4 & 5 learners.	R15 The all-Wales Delegation Guidelines are to be amended incorporating the RNA role & re-launched, with robust implementation plan & evaluation.	R20 Delegation & Accountability to be included in clinical staff induction with ongoing education for RNs & HCSWs (& RNAs in the future), with auditing in practice.

Y prif argymhelliad yw: *Dim ond un rôl Nyrsio Band 4 fydd yn bodoli yn GIG Cymru, sef Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fydd yn gyfrifol am reoleiddio'r rôl.* Roedd y penderfyniad y byddai rôl Band 4 reoleiddiedig yn ddymunol, yn briodol ac yn ychwanegu gwerth i GIG Cymru yn seiliedig ar adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth, casglu tystiolaeth ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Un canfyddiad allweddol oedd, er gwaethaf cryn waith dros ddegawd i safoni datblygiad Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, fod rôl Band 4 yn cael ei thanddefnyddio'n sylweddol o hyd a bod ymagwedd anghyson at ei gweithredu ar draws GIG Cymru. Canfyddiad arall oedd bod rhanddeiliaid clinigol ac academiaidd ledled Cymru eisiau i'r rôl Band 4 mewn nyrsio gael ei rheoleiddio. Y rhesymeg oedd darparu mwy o amddiffyniad i'r cyhoedd a lleihau risg, ynghyd â chysondeb o ran safonau proffesiynol ac addysgol.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn GIG Lloegr, gyda chyflwyno'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig Band 4. Mae'r rôl wedi cael ei disgrifio gan Uwch Nyrsys fel y model gorau o ehangu mynediad i nyrsio yn Lloegr. Cyflwynwyd y rôl ganolog i feithrin gallu'r gweithlu nyrsio, gan helpu i ddarparu gofal o'r radd flaenaf, yn seiliedig ar dystiolaeth, drwy gynorthwyo'r Nyrs Gofrestredig, ac aelodau'r Tîm Amlddisgyblaethol, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar ofal a gweithgareddau mwy dyrys a chymhleth. Maent yn aelodau cynorthwyol o'r tîm nyrsio, sydd wedi ennill Graddau Sylfaen Cydymaith Nyrsio, wedi eu darparu gan ddarparwr sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor Nyrsio a

Bydwreigiaeth. Mae'n cynnwys cwblhau astudiaeth lefel uchel dros 2 flynedd yn llawn amser, ond gellir ei gwblhau'n rhan-amser hefyd ac mae'n galluogi Cymdeithion Nyrsio i gyflawni gweithgareddau gofal mwy arwyddocaol a chymhleth na Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW). Gellir cyflwyno'r rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ym mhob lleoliad iechyd a gofal gyda phobl o bob oedran, ac mae'n rôl a addysgir ar draws 4 maes ymarfer: oedolion, plant, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae cyflwyno'r rôl yn Lloegr wedi helpu i ehangu'r gweithlu Nyrsys Cofrestredig drwy fraenaru'r tir i'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ddod yn Nyrs Gofrestredig.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad Cam 1 llawn drwy'r ddolen ganlynol: [Datganiad Ysgrifenedig: Bwriad polisi ar gyfer cyflwyno rôl nyrsio band 4 rheoleiddiedig ar gyfer y GIG yng Nghymru, yn amodol ar y diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth y DU \(19 Ionawr 2024\) | LLYW.CYMRU](#)

3.0 Cam 2

Ar ôl cwblhau Cam 1, a'r cyhoeddiad ffurfiol o fwriad polisi Llywodraeth Cymru i gyflwyno rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn GIG Cymru, symudodd y prosiect cenedlaethol ymlaen i Gam 2: Parodrwydd, a ddechreuodd yn ffurfiol ym mis Mawrth 2024.

3.1 Dogfen Cychwyn Prosiect (PID)

Cytunodd Noddwr ac Uwch Swyddog Cyfrifol y Prosiect y byddai'r PID a ddyfeisiwyd ar gyfer Cam 1 yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu comisiynu Cam 2, yn hytrach nag ysgrifennu PID newydd.

Roedd nodau'r prosiect ar eu newydd wedd yn cynnwys y canlynol:

1. Cynhyrchu a hwyluso cyflwyno cynllun cyn gweithredu, yn seiliedig ar yr 20 argymhelliad a gymeradwywyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
2. Ymgysylltu'n rhagweithiol, yn agored ac yn effeithiol â rhanddeiliaid hollbwysig, gan fabwysiadu dull partneriaeth gymdeithasol.
3. Nodi'n rhagweithiol unrhyw oblygiadau o ran cyllid ar gyfer cyflwyno'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig (RNA) yn y dyfodol, a godwyd yn ystod Cam 2.

3.2 Cwmpas Cam 2

Y cwmpas ar gyfer Cam 2 oedd Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd Band 4 (a elwir hefyd yn Gynorthwyyr Gofal Iechyd) ledled GIG Cymru a bod yn ymwybodol hefyd o'r effaith ar ofal cymdeithasol a grwpiau proffesiynol eraill. Cafodd bydwreigiaeth ei heithrio o'r cwmpas.

Nodwyd cyfyngiad, sef y ffaith bod y prosiect yn ddibynnol ar bobl, gydag amserlen o 10 mis i'w gwblhau. Roedd GIG Cymru yn parhau i fod o dan bwysau sylweddol, gyda bylchau yn y gweithlu ac ôl-groniadau gofal yn sgil Covid, gan effeithio ar allu rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu'n llawn ac yn effeithiol. Yn gadarnhaol, nid yw'r cyfyngiad hwn wedi'i wireddu ac ymgysylltwyd yn llawn â rhanddeiliaid drwy gydol Cam 2.

3.3 Rhanddeiliaid Allweddol

Nodwyd rhanddeiliaid allweddol ar gyfer Cam 2, gan fabwysiadu dull tebyg i'r un a ddefnyddiwyd yng Ngham 1 (Matrics Mendelow). Roeddent yn cynnwys:

Grŵp Hwyluswyr Addysg Ymarfer Cymru Gyfan

Corff Llais y Dinesydd

Arolygiaeth Gofal Cymru

Cyngor Deoniaid (Iechyd) Cymru

Dirprwy Gyfarwyddwyr y Fforwm Nyrsio

Dirprwy Gyfarwyddwyr Grŵp y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Cyfarwyddwyr Grŵp Cymheiriaid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Cyfarwyddwyr Gweithredol Grŵp Cymheiriaid Nyrsio

Prif Swyddogion Nyrsio y Pedair Gwlad

Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru

Addysg a Gwellu Iechyd Cymru

Arolygiaeth Iechyd Cymru

Sector Annibynnol

Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Grŵp Arweinwyr Addysg Nyrsio (Cymru)

Awduron Toreithiog

Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Gofal Cymdeithasol Cymru
UNSAIN
Prifysgolion yng Nghymru (a Lloegr)
Fforwm Partneriaeth Cymru

3.4 Siart Gantt y Prosiect

Datblygwyd Siart Gantt y Prosiect fel siart bar gweledol i gynllunio ac olrhain cynnydd y prosiect, ac roedd yn cynnwys tair adran:

- Adran 1: Archwilio
- Adran 2: Gweithredu
- Adran 3: Gwerthuso

Roedd y Siart Gantt yn cael ei adolygu'n fisol ac roedd yn defnyddio cod lliw i ddangos cynnydd:

- **Coch** = ddim ar y trywydd iawn
- **Oren** = cynnydd ond ar ei hôl hi
- **Gwyrdd** = ar y trywydd iawn
- **Glas** = gwaith heb ddechrau eto/ddim angen ei gyflawni eto
- **Melyn** = wedi cau.

Gellir gweld y siart Gantt a gyflwynwyd i Fwrdd y Rhaglen ym mis Rhagfyr yn **Atodiad 1**.

3.5 Cofrestr Risg

Lluniwyd cofrestr risg i ddarlunio amcanion, rhwystrau, digwyddiadau ac amgylchiadau a allai atal yr amcan rhag cael ei gyflawni, ac roedd yn cynnwys achos a chanlyniadau'r risg a nodwyd. Roedd risg gynhenid yn darparu sgôr sy'n ymwneud â chyflawni'r amcan cyn i unrhyw gamau lliniaru neu reoli gael eu rhoi ar waith i reoli'r risg. Roedd effaith yn ymwneud ag asesiad o ganlyniadau'r risg yn cael ei gwireddu (sgôr o 1-5) a thebygolrwydd yn ymwneud ag asesiad o'r tebygolrwydd y bydd risg yn cael ei gwireddu (sgôr o 1-5).

Roedd risgiau'r prosiect a nodwyd yn cynnwys:

- Amseroldeb newidiadau i ddeddfwriaeth y DU


- Y gallu i randdeiliaid gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Paramedrau Ymarfer
- Cynllunio'r gweithlu yn gadarn i sicrhau màs critigol a chyfle pontio digonol sy'n llywio proses comisiynu addysg Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC).
- Y gallu i nodi'r goblygiadau ariannol ar gyfer cyflwyno'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn ystod Cam 2

Mae'r gofrestr risg a gyflwynwyd i Fwrdd y Rhaglen ym mis Rhagfyr 2024 i'w gweld yn **Atodiad 2**.

3.6 Llinell amser / Llwybr Critigol

Mae **Graffig 1** yn amlinellu'r cerrig milltir allweddol yn ystod oes Cam 2.

Graffig 1: Llwybr critigol ar gyfer Cam 2.



3.7 Adroddiadau Cynnydd Misol

Mae Arweinwyr Prosiect Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu adroddiadau misol ar gyfer yr Uwch Swyddog Cyfrifol a Noddwr y Prosiect i ddangos cynnydd yn erbyn targedau'r prosiect drwy gydol Cam 2. Mae hyn wedi cipio ymgripiad cwrpas, risgiau i'r amserlen, adnoddau a phroblemau eraill. Lle bo angen, mae camau adfer wedi'u rhoi ar waith i gefnogi datrys y materion hyn. Roedd pob adroddiad misol yn cynnwys copi o'r Siart Gantt, y Gofrestr Risg a manylion eraill y prosiect megis uchafbwyntiau'r is-grŵp. Roedd yr adroddiadau misol hefyd yn cynnwys sgôr RAG cynnydd cyffredinol.

3.8 Cofrestr Datgan Buddiannau

Sefydlwyd cofrestr datgan buddiannau i gefnogi rheolaeth dros y prosiect drwy fonitro ac archwilio risg sy'n gysylltiedig â gwrthdaro. Adroddwyd am wrthdaro posibl neu wirioneddol gan aelodau o Fwrdd y Rhaglen, is-grwpiau a grwpiau gorchwyl a gorffen. Cofnodwyd yr holl ddatganiadau ar gofrestr y prosiect. Roedd hon yn broses ailadroddus drwy gydol Cam 2, gyda phawb a oedd yn bresennol mewn cyfarfod yn gorfod nodi a oedd unrhyw achosion newydd o wrthdaro i'w datgan ar ddechrau pob cyfarfod. Gwnaed pum datganiad drwy gydol Cam 2.

4.0 Bwrdd y Rhaglen

Sefydlwyd Bwrdd y Rhaglen yn chwarter cyntaf 2024, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Ebrill. Gwnaeth Bwrdd y Rhaglen sicrhau bod y cyflawniadau allweddol sy'n gysylltiedig â bwriad polisi Llywodraeth Cymru o gyflwyno'r rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn GIG Cymru yn cael eu gweithredu, ar amser ac yn llawn, yn unol â gofynion a disgwyliadau cynllun prosiect Cam 2 a'r cynllun cyflawni y cytunwyd arno.

Darparodd y Bwrdd arweinyddiaeth a chyfarwyddyd, yn ogystal â goruchwyliaeth ffurfiol o'r prosiect nyrsio Band 4, ac roedd yn llwyfan ar gyfer trafod a datrys materion; strategaethau ar gyfer lliniaru risg; sicrhau bod ffrydiau gwaith yn cyfateb i amcanion allweddol y rhaglen, ynghyd â gwneud penderfyniadau allweddol a monitro cynnydd. Roedd gan aelodau Bwrdd y Rhaglen gyfrifoldeb i gymryd rhan lawn a gweithredol ac i raeadru gwybodaeth i'r sefydliadau yr oeddent yn eu cynrychioli mewn modd amserol.

Cadeiriwyd Bwrdd y Rhaglen gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru, gydag Is-gadeirydd wedi'i benodi, sef y Swyddog Nyrsio ar gyfer Safonau Proffesiynol, Rheoleiddio ac Addysg yn Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio. Roedd Bwrdd y Rhaglen yn atebol, drwy'r Prif Swyddog Nyrsio (fel Cadeirydd), i Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn adrodd i Fwrdd Uwch Arweinwyr GIG Cymru.

Yn y cyfarfod cyntaf, nododd y Prif Swyddog Nyrsio y disgwyliadau a gofynnodd i bob is-grŵp ystyried unrhyw effaith ariannol sy'n ymwneud â'r argymhellion a ddyrannwyd a'r camau gweithredu ychwanegol, gan godi'r rhain yn ailadroddus gyda Bwrdd y Rhaglen.

Rhagwelwyd y byddai costau'n debygol o ddod i'r amlwg yn ystod Cam 2, gyda goblygiadau ariannol mwy penodol yn cael eu hamlygu yn ystod Cam 3.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol bob deufis. Darparwyd cymorth gweinyddol gan Arweinwyr Prosiect Band 4 (Nyrsio) Llywodraeth Cymru, gyda chymorth gan swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio pan oedd ar gael. Roedd papurau ar gyfer Bwrdd y Rhaglen (i gynnwys: yr agenda, nodiadau o'r cyfarfod blaenorol, y log gweithredu, y log penderfyniadau a'r gofrestr risg) fel arfer yn cael eu dosbarthu i aelodau bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod. Roedd disgwyl y gellid cynnal busnes i gefnogi cyflawni amcanion y prosiect rhwng cyfarfodydd ffurfiol hefyd, a defnyddiwyd y cyfleuster hwn ar sawl achlysur.

4.1 Cylch Gorchwyl

Nod Bwrdd y Rhaglen oedd sicrhau paratoi ystyrlon, yn unol â safbwynt polisi Llywodraeth Cymru mai dim ond un rôl nyrsio Band 4 fydd yn bodoli yn GIG Cymru (y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig), gydag dull gweithredu Unwaith i Gymru canolog mewn perthynas â'r Paramedrau Ymarfer. Mae'r cylch gorchwyl i'w weld yn **Atodiad 3**.

Roedd aelodau Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys:

- Swyddog Nyrsio (Addysg, Rheoleiddio a Safonau Proffesiynol)
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Strategaeth a Mewnwelediad, Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Allgymorth Cenedlaethol a Rhanbarthol - Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cyfarwyddwr Gweithredol – Addysg Nyrsio a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd, AaGIC
- Dirprwy Gyfarwyddwr - Trawsnewid y Gweithlu, AaGIC
- Dirprwy Gyfarwyddwr – Addysg, Comisiynu ac Ansawdd, AaGIC
- Cadeirydd Cyfarwyddwyr Gweithredol y Grŵp Cymheiriaid Nyrsio
- Cynrychiolydd o Gyfarwyddwyr Gweithredol Grŵp Cymheiriaid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
- Uwch gynrychiolydd o Gyngor Deoniaid (Iechyd) Cymru
- Pennaeth y Gweithlu a datblygu Sefydliadol – Strategaeth a Chynllunio (Llywodraeth Cymru) / Dirprwy IGC - Gweithlu a Gweithrediadau'r GIG

- Uwch gynrychiolwyr o Fforwm Partneriaeth Cymru
- Uwch gynrychiolydd o'r Coleg Nyrsio Brenhinol
- Cynrychiolydd o Llais
- Cynrychiolydd o'r Sector Cartrefi Gofal Annibynnol (yn ddiweddar)
- Cynrychiolydd o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Gyfan (yn ddiweddar)
- Arweinwyr y Prosiect Band 4 (Llywodraeth Cymru)
- Arweinydd y Rhaglen Band 4 (AaGIC)


Roedd aelodau cyfetholedig hefyd:

- 4 Cadeirydd Is-grwpiau a ddarparodd adroddiad cynnydd ffurfiol ar eu ffrydiau gwaith priodol ym mhob Bwrdd Rhaglen.
- Gellid cyfethol arbenigwyr pwnc yn ôl yr angen gyda chytundeb y Cadeirydd.

Roedd yn ofynnol i'r holl Aelodau (gan gynnwys Cadeiryddion is-grwpiau) fynychu pob Bwrdd Rhaglen, ond os nad oedd modd iddynt wneud hynny, roedd disgwyl cynrychiolaeth briodol. Roedd yn ofynnol i'r unigolyn a oedd yn cynrychioli'r aelod craidd fod o statws uwch, gyda gwybodaeth am y prosiect a'i ofynion, er mwyn galluogi cyfraniad effeithiol. Roedd yr holl aelodau'n hanfodol i lwyddiant y prosiect a chyflawni'r bwriad polisi Gweinidogol hwn. Er mwyn sicrhau cworwm, roedd angen cynrychiolaeth ar Fwrdd y Rhaglen gan: AaGIC, Cyfarwyddwyr Gweithredol Grŵp Cymheiriaid Nyrsio (EDoN), Fforwm Partneriaeth Cymru, Cadeiryddion is-grwpiau ac Arweinwyr Prosiect Llywodraeth Cymru.

Roedd y pedwar ymddygiad arweinyddiaeth dosturiol (Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol AaGIC 2022), a nodir yn y cwmpawd diagramatig - **Graffig 2**, yn sail i'r ffordd y disgwyliwyd i aelodau ryngweithio ac ymgysylltu â chydweithwyr drwy gydol Cam 2 y prosiect. Roedd hyn yn cyd-fynd â gwerthoedd a chredoau lechyd a Gofal Cymdeithasol.


Graffig 2: Y Model Arweinyddiaeth Dosturiol



Sefydlwyd pedwar is-grŵp, sy'n atebol i Fwrdd y Rhaglen. Dangosir y rhain yng **Ngraffig 3**, sy'n tynnu sylw at ddyraniad pob un o'r argymhellion i'r is-grwpiau perthnasol, gan nodi bod 'camau gweithredu ychwanegol' hefyd wedi'u neilltuo i'r is-grwpiau priodol. Mae'n bwysig nodi bod ffrydiau gwaith rhyngddibynnol ac, fel y cyfryw, fod ganddynt gynrychiolaeth ddeuol o fewn cynlluniau cyflawni'r is-grŵp priodol. Mae'r cynllun dyrannu cyffredinol ar gyfer argymhellion a chamau gweithredu ychwanegol i'w weld yn **Atodiad 4**.

Graffig 3: Strwythur llywodraethu ar gyfer Cam 2 y prosiect.

Phase 2 – 2024 Preparedness



Allwedd: **Porffor** = cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, **Gwyrdd** = cyfrifoldeb AaGIC a **Coch** = cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth.

Roedd angen tair ffrwd waith ychwanegol i sicrhau y byddai'r data monitro nyrsio angenrheidiol ar gyfer y Cydymaith Nyrsio yn cael ei gipio; bod metrigau ac offer gwerthuso yn cael eu hystyried; ynghyd â chynnig i wneud ymchwil yn y dyfodol i ddeall effaith rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar draws GIG Cymru.

4.2 Cynnydd Bwrdd y Rhaglen

Cynhaliwyd pum cyfarfod o Fwrdd y Rhaglen rhwng Ebrill a Rhagfyr 2024, yn unol â'r amserlen arfaethedig. Ni chanslwyd unrhyw gyfarfodydd a chyflawnwyd cworwm ym mhob cyfarfod.

Gwnaeth Bwrdd y Rhaglen chwe phenderfyniad, fel yr amlinellir isod:

1. Mehefin 2024:

Trafodaeth: Cododd Cadeirydd yr is-grŵp addysg bryder am uchelgais y prosiect o weithredu rhaglen addysg y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig o fis Medi 2025 ac a fyddai 'cynllun peilot'.

Penderfyniad: Annhebygol iawn y bydd 'cynllun peilot' yn cael ei weithredu yng Nghymru. Cytunwyd y dylid cyfeirio at gyfranogwyr y rhaglen Cydymaith Nyrsio gyntaf fel y 'garfan gyntaf'.

2. Mehefin 2024:

Trafodaeth: Archwiliwyd yr opsiynau sydd ar gael i Gymru o ran sicrhau newid deddfwriaethol, ynghyd â'r gydnabyddiaeth y gall rhaglen addysg Cydymaith Nyrsio gychwyn, heb i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio, gyda thrydydd parti yn cael ei neilltuo fel y 'rheoleiddiwr' interim. Ni all y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth reoleiddio rôl na sicrhau ansawdd y rhaglen addysg nes bod y ddeddfwriaeth yn newid i'w galluogi i wneud hynny.

Penderfyniad: Penderfynwyd y gallai Cymru, hyd nes yr asesiad risg, gyflwyno'r rhaglen addysg Cydymaith Nyrsio cyn y newid deddfwriaethol angenrheidiol, ar yr amod bod y ddeddfwriaeth ar waith erbyn i'r garfan gyntaf gwblhau'r rhaglen.

3. Awst 2024:

Trafodaeth: Cynigiodd AaGIC y dylai Colegau Addysg Bellach (AB) gael eu cynrychioli ar Fwrdd y Rhaglen, yn debyg i Gyngor Deoniaid Iechyd (Cymru) a Sefydliadau Addysg Uwch. Codwyd hwn fel pwynt pwysig gan y gall colegau AB ddarparu rhaglenni addysg Cydymaith Nyrsio.

Penderfyniad: Cefnogaeth i gael cynrychiolaeth Colegau AB ar Fwrdd y Rhaglen.

4. Awst 2024:

Trafodaeth: Diwygiad arfaethedig i'r amserlen uchelgeisiol ym mis Medi 2025 er mwyn i ddyddiad cychwyn y rhaglen addysg Cydymaith Nyrsio newid i flwyddyn academiaidd 2025/26.

Penderfyniad: Cytundeb ar gyfer y newid yn y naratif, fel y cynigiwyd, hyd nes y bydd y newid deddfwriaethol yn cael ei wneud.

5. Hydref 2024:

Trafodaeth: Trafodaeth gynhwysfawr am gynnwys y ddogfen ymgynghori ddrafft, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag aelodau'r is-grŵp Paramedrau Ymarfer, i gynnwys cyfathrebu, ymgysylltu a'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad. Cytunwyd ar fân newidiadau i'r ddogfen.

Penderfyniad: Roedd Bwrdd y Rhaglen yn fodlon â'r ddogfen ymgynghori (yn amodol ar y mân ddiwygiadau), gan alluogi cychwyn proses ymgynghori Llywodraeth Cymru.

6. Hydref 2024:

Trafodaeth: Yn dilyn gwaith gan aelodau'r is-grŵp gweithlu mewn perthynas â chytundeb Unwaith i Gymru ar deitlau ar gyfer Cymdeithion Nyrsio yng Nghymru, cynigiodd y grŵp *Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant* cyn cofrestru a *Cydymaith Nyrsio Cofrestredig* ar ôl cofrestru.

Penderfyniad: Cadarnhaodd Bwrdd y Rhaglen y teitlau a ganlyn, fel y'u cynigiwyd: Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant a Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.

Cofnodwyd 29 o gofnodion ar log gweithredu Bwrdd y Rhaglen, gyda 27 ohonynt wedi'u cwblhau. Mae 2 gam gweithredu yn parhau i fod â sgôr RAG 'ambr', fel y trafodwyd ym Mwrdd y Rhaglen ym mis Rhagfyr. Roeddent yn cynnwys:

- Datblygu cynllun cyfathrebu cadarn
- Y cynllun cau a throsglwyddo

Ni chafwyd unrhyw achosion o uwchgryfeirio gan Fwrdd y Rhaglen, drwy'r Cadeirydd, i Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod Cam 2.

Cynhaliwyd cyfarfod terfynol arfaethedig Bwrdd y Rhaglen ar 17 Rhagfyr 2024. Roedd allbynnau'r ymgynghoriad Paramedrau Ymarfer i'w hadrodd o fewn Cam 2, ond gan mai dyddiad cau'r ymgynghoriad oedd 12 Rhagfyr a bod Bwrdd y Rhaglen wedi'i gynnal 3 diwrnod gwaith yn ddiweddarach, nid oedd hyn yn bosibl. O ganlyniad, penderfynodd y Cadeirydd drefnu cyfarfod arbennig eithriadol byr ychwanegol i rannu allbynnau'r ymgynghoriad ac adroddiad prosiect Cam 2.

5.0 Is-grwpiau

Sefydlwyd pedwar is-grŵp, gyda'r cyfarfodydd cyntaf ar eu cyfer yn cychwyn ym mis Mai 2024, yn dilyn cyfarfod cyntaf Bwrdd y Rhaglen ym mis Ebrill.

- **Deddfwriaeth:** Cadeirydd – Ian Owens, Pennaeth Strategaeth a Chynllunio'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Llywodraeth Cymru); a ddewiswyd gan y Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Llywodraeth Cymru.
- **Paramedrau Ymarfer:** Cadeirydd – Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; a ddewiswyd gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Grŵp Cymheiriaid Nyrsio.
- **Addysg:** Cadeirydd – Yr Athro Jayne Cutter, Pennaeth yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Nyrsio, Prifysgol Abertawe; a ddewiswyd gan Gyngor Deoniaid Cymru.
- **Gweithlu:** Cadeirydd – Lianne Morse, Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; a ddewiswyd gan Gyfarwyddwyr Grŵp Cymheiriaid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

Diben pob is-grŵp oedd cefnogi'r gwaith o hyrwyddo diben Bwrdd y Rhaglen o sicrhau parodrwydd ystyrllon ar gyfer cyflwyno'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn y dyfodol ar draws GIG Cymru, yn amodol ar y newid deddfwriaethol angenrheidiol. Cyflawnwyd hyn drwy aelodaeth arbenigwyr pwnc i hwyluso'r amcanion a'r cyflawniadau, fel y'u nodir yn yr argymhellion a'r camau gweithredu ychwanegol a gymeradwywyd gan y gweinidogion, a nodwyd o'r adroddiad Cam 1. Datblygodd pob is-grŵp gynllun cyflawni ar gyfer monitro cynnydd ac i adrodd yn ei erbyn. Roedd Cadeiryddion Is-grwpiau yn cael eu cefnogi gan Arweinwyr Prosiect Llywodraeth Cymru. Roedd gan bob is-grŵp Gadeirydd, Is-gadeirydd a chylch gorchwyl.

Darparwyd cymorth gweinyddol gan Arweinwyr Prosiect Band 4 Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth gan swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio pan oedd ar gael. Fel arfer, roedd papurau ar gyfer yr is-grwpiau yn cael eu dosbarthu i aelodau bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod. Roedd disgwyl y gellid cynnal busnes i gefnogi cyflawni amcanion y prosiect rhwng cyfarfodydd ffurfiol hefyd, a defnyddiwyd y cyfleuster hwn ar sawl achlysur.

Cynhyrchwyd nodiadau ar gyfer pob cyfarfod is-grŵp, a'r grwpiau gorchwyl a gorffen priodol, ac roedd gan bob grŵp log gweithredu a oedd yn disgrifio'r camau gweithredu a oedd yn ofynnol gan bwy ac erbyn pryd, gyda sgôr BRAG i olrhain i ba raddau roeddent wedi'u cyflawni.

Allwedd sgoriau BRAG:

- **Coch** = dyddiad cwblhau wedi'i fethu, ac angen adfer
- **Oren** = rhai problemau gyda'r cwblhau ond yn cael ei reoli
- **Gwyrdd** = cwblhau ar y gweill ac ar y trywydd iawn
- **Glas** = wedi'i gwblhau/cau

Roedd yn ofynnol i Gadeiryddion is-grwpiau ddarparu diweddariadau ffurfiol i Fwrdd y Rhaglen yn erbyn eu cynlluniau cyflawni priodol, gan ddefnyddio'r templed adrodd y cytunwyd arno - mae fersiwn wag ohono i'w weld yn **Atodiad 5**. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys cynnydd yn erbyn eu cynllun cyflawni priodol, risgiau, materion i'w penderfynu, eitemau uwchgyfeirio a sgôr RAG gyffredinol.

5.1 Is-grŵp Deddfwriaeth

Mae goblygiadau deddfwriaethol yn gysylltiedig â'r bwriad i gyflwyno rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Mae angen diwygiadau deddfwriaethol i'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) ac mae'r rhain yn bwerau a gedwir gan Lywodraeth y DU. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cysylltu'n rheolaidd â chymheiriaid yn Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU mewn perthynas â'r mater hwn. Ni ellir cyflwyno'r rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru heb newidiadau deddfwriaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Er mwyn bodloni'r bwriad polisi, uchelgais i Gymru yw gweld y garfan gyntaf o Cymdeithion Nyrsio dan Hyfforddiant yn cychwyn ym mlwyddyn academiaidd 2025/26. Felly, byddai angen i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fod y rheoleiddiwr mewn cyfraith er mwyn i Gymdeithion Nyrsio weithredu yng Nghymru erbyn hydref 2026.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ffurfiol am ei bwriad polisi i gyflwyno Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru, fel y gellid

ystyried y newidiadau deddfwriaethol gofynnol yn ei raglen diwygio rheoliadau sydd ar fin cael ei chyflwyno. Cyflwynwyd tystiolaeth yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2024. Ymatebodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddweud y byddai hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, a phleidleisiodd y Cyngor yn unfrydol i dderbyn Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig ar gofrestr Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru, os gwneir newid deddfwriaethol.

Gellir diwygio'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) drwy adran 60 mewn dwy ffordd:

- I. Cydweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymgorffori'r newid i adran 60 yn niwygiadau deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a archebwyd ar gyfer amser seneddol y DU.
- II. Ymgymryd â diwygiad adran 60 ar wahân y tu allan i ddiwygiadau fframwaith deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Drwy drafodaethau gyda swyddogion polisi'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr opsiwn a ffeirir oedd cynnwys y newidiadau i'r rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru fel rhan o'r rhaglen ehangach o ddiwygiadau deddfwriaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ychydig iawn o adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni'r opsiwn hwn (o fewn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru) ac ni fyddai angen amser Seneddol ar wahân, a all fod yn anodd ei sicrhau.

5.1.1 Cylich Gorchwyl Deddfwriaeth

Aelodaeth:

- Cadeirydd - Pennaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Strategaeth a Chynllunio (Llywodraeth Cymru)
- Swyddog Nyrsio, Gweithlu, Rheoleiddio ac Addysg (Llywodraeth Cymru)
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Strategaeth a Mewnwelediad, Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Dirprwy Gyfarwyddwr Rheoleiddio Proffesiynol, Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol neu gynrychiolydd (Llywodraeth Cymru)
- Rheolwr Staffio Nyrsys, Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio (Llywodraeth Cymru)
- Arweinwyr Prosiect Band 4 (Nyrsio), Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio (Llywodraeth Cymru)

Trefnwyd cyfarfodydd is-grwpiau yn dibynnu ar ddiweddariadau ynghylch amserlenni Llywodraeth y DU ar gyfer newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol. Mae'r cylch gorchwyl i'w weld yn **Atodiad 6**.

5.1.2 Cynllun Cyflawni Deddfwriaeth

Roedd y cynllun cyflawni ar gyfer yr is-grŵp deddfwriaeth yn cynnwys un argymhelliad (R1) ac un cam gweithredu ychwanegol (AA1), fel y dangosir yn **Nhabl 2**.

Tabl 2: Cynllun cyflawni ar gyfer yr Is-grŵp Deddfwriaeth.

Argymhellion (R) a Chamau Gweithredu Ychwanegol (AA)	Canlyniadau	Amserlenni Arfaethedig
R1 Bydd un rôl Nyrsio Band 4 yn GIG Cymru, sef y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, a reoleiddir gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.	Mae llywodraeth y DU yn cyhoeddi'r newid deddfwriaethol sy'n galluogi diwygio deddfwriaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth drwy orchymyn adran 60, gan hwyluso cyflwyno'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru. Caiff senarios eu cynllunio ynglŷn â'r dull a'r dyddiad cychwyn posibl ar gyfer yr hyfforddiant Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru, i'w hystyried ac i benderfynu arnynt gan Fwrdd y Rhaglen.	Anhysbys Awst 2024 WEDI'I GWBLHAU
AA1 Diwygio Canllawiau Gweithredol Deddf Lefelau Staffio Nyrsio	Mae'r naratif ychwanegol yn cael ei greu yn barod i'w fewnosod, ar ôl newid deddfwriaethol, sy'n galluogi	Rhagfyr 2024 WEDI'I GWBLHAU

(Cymru) i ymgorffori rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.	rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig i gael ei chyflwyno yng Nghymru. Mae'r Canllawiau Gweithredol, sy'n cefnogi Deddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru) (2016), wedi'u diweddaru i adlewyrchu presenoldeb rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng ngweithlu'r GIG yng Nghymru.	Cam 3

5.1.3 Cynnydd yr Is-grŵp Deddfwriaeth

R1 Bydd un rôl Nyrsio Band 4 yn GIG Cymru, sef y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, a reoleiddir gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Hyd yn hyn, nid yw'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cyhoeddi'r amserlen ar gyfer diwygio rheoleiddio ac mae'r Etholiad Cyffredinol a'r newid yn Llywodraeth y DU wedi achosi oedi pellach, anochel. Mae'r drafodaeth ddiweddaraf gyda swyddogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fel y'i rhannwyd ym Mwrdd y Rhaglen ym mis Rhagfyr, yn dangos bod y rhaglen ddiwygio yn cael ei hystyried gan weinidogion y DU ar hyn o bryd. Gan ganiatáu hyd at 18 mis posibl i fwrw ymlaen â Gorchymyn Adran 60, byddai angen i'r broses ddechrau erbyn mis Mawrth 2025. Os na chyhoeddir amserlen ddiwygio'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn y misoedd nesaf (gan dybio y byddai'r amserlen yn bodloni amserlen y rhaglen Cydymaith Nyrsio Cofrestredig Band 4), efallai y bydd angen gwneud cais ffurfiol i Lywodraeth y DU am Orchymyn Adran 60 annibynnol.

Rhoddodd Cadeirydd yr is-grŵp Deddfwriaeth yr wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd y Rhaglen ym mis Rhagfyr, gan nodi nad oedd amserlen wedi'i chyhoeddi ar gyfer diwygio rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Heb amserlen y cytunwyd arni, nid oes modd pennu a fydd diwygio rheoleiddio'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn darparu'r mecanwaith deddfwriaethol angenrheidiol i gyflwyno rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig Band 4 yng Nghymru, yn unol â'r uchelgeisiau i'r garfan gyntaf o Gymdeithion Nyrsio

ddechrau ym mlwyddyn academiaidd 2025/26. Ym Mwrdd y Rhaglen ym mis Rhagfyr, cytunwyd, yn absenoldeb amserlen gan lywodraeth y DU, y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn uwchgyfeirio'r mater i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda'r nod o gyflymu penderfyniad.

AA1 - Diwygio Canllawiau Gweithredol Deddf Lefelau Staffio Nyrsio (Cymru) i ymgorffori'r rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.

Gweithredwyd Deddf Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru) yn 2016, ac mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff gwasanaethau iechyd yng Nghymru sicrhau lefelau staffio nyrsio priodol ar draws gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir. Nod y ddeddfwriaeth yw galluogi darparu gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar bob corff gwasanaeth iechyd y GIG yng Nghymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG) i ystyried pwysigrwydd sicrhau bod digon o nyrsys ar gael i ofalu am gleifion yn sensitif, p'un a ydynt yn darparu'r gwasanaethau hynny eu hunain neu'n sicrhau gwasanaethau nyrsio gan drydydd parti.

Mae adran 25B yn cyflwyno dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru (pan fo'n gymwys) i gyfrifo lefelau staff nyrsio a chymryd pob cam rhesymol i gynnal y lefelau hynny ac i hysbysu cleifion am y lefel honno. Y lefel staff nyrsio yw nifer y nyrsys sy'n briodol i ddarparu gofal i gleifion sy'n bodloni'r holl ofynion rhesymol yn y sefyllfa berthnasol. Mae nifer y nyrsys yn golygu nifer y Nyrsys Cofrestredig (y rhai sydd â chofrestriad byw ar is-rannau 1 neu 2 o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth). Wrth gyfrifo'r lefel staff nyrsio, gellir ystyried dyletswyddau nyrsio yr ymgymmerir â nhw o dan oruchwyliaeth Nyrs Gofrestredig, neu ddyletswyddau nyrsio sy'n cael eu dirprwyo i berson arall gan Nyrs Gofrestredig.

Mae angen diwygio'r canllawiau gweithredol sy'n gysylltiedig â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) (2016), ond ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r ddeddf ei hun, gan nad yw'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar is-rannau 1 neu 2 o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; yn hytrach, mae ar y rhan 'NAR' o'r gofrestr. Yn y bôn, mae saith newid i'r canllawiau gweithredol, gan gynnwys 3 mân ddiwygiad lle cyfeirir at y rôl, a 4 newid mawr arall, i gynnwys:

- Cynnwys diffiniad o'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn y rhestr termau ar ddechrau'r ddogfen.
- Diwygio'r atodiad templed cyfrifo i gynnwys y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig fel rôl ar wahân i rôl Nyrs Gofrestredig a Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd.
- Diwygio'r poster cleifion i gynnwys y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig fel rôl ar wahân i rôl Nyrs Gofrestredig a Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd
- Newidiadau i'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin sy'n esbonio'r gwahaniaethau rhwng y rolau i'r cyhoedd.

Rhaglen Staffio Nyrsio Cymru Gyfan sy'n gyfrifol am adolygu a diwygio canllawiau gweithredol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Mae'r adolygiad o'r canllawiau gweithredol i gynnwys cynnwys rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig wedi'i gynnal, yn unol â'r cynllun cyflawni. Bydd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan yn gyfrifol am sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol i'r Canllawiau Gweithredol yn cael eu cwblhau yn ystod Cam 3, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r camau gweithredu hyn wedi'u cynnwys yn eu cynllun gwaith ar gyfer 2025.

5.2 Is-grŵp Paramedrau Ymarfer

Drwy gydol y prosiect, mae'r potensial i gyflwyno Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig yn lle Nyrsys Cofrestredig wedi'i godi, yn fwyaf arbennig gan y Coleg Nyrsio Brenhinol. Wrth gyhoeddi'r bwriad polisi i gyflwyno rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar draws GIG Cymru, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai nod y rôl newydd oedd ategu'r gweithlu Nyrsio Cofrestredig, yn ogystal â galluogi gwell mynediad at nyrsio. Mae Prif Swyddog Nyrsio Cymru hefyd wedi bod yn glir na fydd y rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn cymryd lle Nyrsys Cofrestredig.

Mae argymhelliad Paramedrau Ymarfer (R2) yn nodi'r terfynau ffiniau neu'r 'llinellau coch' na ellir eu croesi, ond gan gydnabod elfennau unigryw a nodedig rôl y mae'n rhaid eu diogelu a chydabod y bydd achosion o rolau'n gorgyffwrdd yn digwydd. Mae paramedrau ymarfer sydd wedi'u diffinio'n glir yn cadarnhau dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau clinigol, gan sicrhau gofal diogel i gleifion, ynghyd â gwahaniaethu rhwng rolau. Bydd Paramedrau Ymarfer yn ddull polisi penodol i Gymru, na chaiff ei orfodi gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae fframwaith rheoleiddio proffesiynol y Cyngor Nyrsio

a Bydwreigiaeth yn gyffredin ledled Cymru a Lloegr ac mae'n cynnwys y cod, gwirio cymeriad, hyfedredd a gofynion ail-ddilysu.

Mae hwn yn ddarn unigryw ac arloesol o waith nad yw'n bodoli gyda'r model Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn Lloegr, sydd wedi ffurfio sail y ffrwd waith ar gyfer yr is-grŵp Paramedrau Ymarfer.

5.2.1 Cylch Gorchwyl Paramedrau Ymarfer

Aelodaeth:

Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cadeirydd)

Arweinwyr nyrsio ar gyfer rheoleiddio o bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru

Cynrychiolwyr o:

AaGIC

Fforwm Partneriaeth Cymru

Y Coleg Nyrsio Brenhinol (Is-gadeirydd)

Cyrff Arolygiaeth Cymru (AGIC, AGC, Gofal Cymdeithasol Cymru)

Y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y Sector Annibynnol

Arweinwyr Prosiect Band 4 (Nyrsio), Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio (Llywodraeth Cymru)

Mae'r cylch gorchwyl i'w weld yn **Atodiad 7**.

Trefnwyd cyfarfodydd is-grwpiau dros gyfnod o bedwar mis (mis Mai i fis Medi 2024), gyda busnes ychwanegol yn cael ei gyflawni drwy e-bost a dulliau electronig eraill rhwng cyfarfodydd. Roedd y cyfarfod ym mis Gorffennaf ar ffurf gweithdy i baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad arfaethedig. (Yn ogystal, bydd cyfarfod eithriadol yn cael ei drefnu yn gynnar yng Ngham 3 ar gyfer aelodau gwreiddiol y grŵp i adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a llunio dogfen paramedrau ymarfer derfynol erbyn haf 2025).

5.2.2 Cynllun Cyflawni Paramedrau Ymarfer

Roedd y cynllun cyflawni ar gyfer yr is-grŵp Paramedrau Ymarfer yn cynnwys un argymhelliad (R2) a dau gam gweithredu ychwanegol (AA1 ac AA2), gweler **Tabl 3**.

Tabl 3: Cynllun cyflawni ar gyfer yr is-grŵp Paramedrau Ymarfer.

Argymhellion 'Paramedrau Ymarfer'	Canlyniadau	Amserlenni Arfaethedig
R2 Defnyddio dull partneriaeth gymdeithasol canolog, Unwaith i Gymru, wrth bennu Paramedrau Ymarfer a mesurau lliniaru sy'n gwahaniaethu rhwng rolau Nyrs Gofrestredig a Chydymaith Nyrsio Cofrestredig, gan osgoi disodli'r naill gan y llall a sicrhau bod cleifion a nyrsys yn cael eu diogelu.	Caiff dogfen ei llunio sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Paramedrau Ymarfer ar gyfer Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar draws GIG Cymru. (Noder nad yw'r Paramedrau Ymarfer yn ofynion a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn eu fframwaith rheoleiddio proffesiynol ledled Cymru a Lloegr).	Medi 2024 WEDI'I GWBLHAU
AA1 Archwilio opsiynau ar gyfer ymagwedd gyson at 'gwmpas ymarfer' Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn ôl arbenigedd (e.e. defnyddio'r Rhwydwaith Gofal Critigol, Grŵp Nyrsio Newyddenedigol, Fforwm Nyrsio Iechyd Meddwl ac ati)	Mae dull Unwaith i Gymru, gan gytuno ar y cwmpas estynedig o weithgareddau ymarfer ar ôl cofrestru sy'n briodol ar gyfer Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig y tu hwnt i'r triniaethau a nodir yn Atodiad B o Safonau Hyfedredd Cydymaith Nyrsio y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael ei gynhyrchu, (Noder, o safbwynt rheoleiddio, fod rhaid i ddatblygiad sgiliau, a thwf y tu hwnt i bwynt cofrestru'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, bob amser aros gyda Chod safonau ymarfer proffesiynol y Cyngor).	Cam 3

AA2 Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau i weithio ar y cyd â phrifysgolion i nodi gofynion addysg Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar ôl cofrestru ar gyfer cwrmpas ymarfer estynedig, gan gysylltu'r ffrwd waith hon â'r fframwaith ymarfer uwch ar lefel uwch.	Mae comisiynu'n cynnwys rhaglenni addysg ôl-gofrestru sy'n addas ar gyfer Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig ac ar gael iddynt. Mae Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau'n cynnwys Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig yn y cynllun addysg ar gyfer cyllid AaGIC ar ôl cofrestru fel rhan o'r comisiynau blynyddol, sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) y sefydliadau	Cam 3

5.2.3 Cynnydd yr Is-grŵp Paramedrau Ymarfer

R2

Defnyddio dull partneriaeth gymdeithasol canolog, Unwaith i Gymru, wrth bennu Paramedrau Ymarfer a mesurau lliniaru sy'n gwahaniaethu rhwng rolau Nyrs Gofrestredig a Chydymaith Nyrsio Cofrestredig, gan osgoi disodli'r naill gan y llall a sicrhau bod cleifion a nyrsys yn cael eu diogelu.

Gweithdy

Cynhaliwyd gweithdy ym mis Gorffennaf 2024, gyda'r nod o archwilio barn a safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â'r Paramedrau Ymarfer cenedlaethol arfaethedig ar gyfer GIG Cymru. Roedd yr wybodaeth ategol yn cynnwys Hyfedredd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer Nyrsys Cofrestredig a Chymdeithion Nyrsio Cofrestredig a diffiniad y Coleg Nyrsio Brenhinol o Nyrs Gofrestredig a'i ddatganiad sefyllfa yn ymwneud ag amnewid rôl.

Archwiliwyd elfennau o rôl y Nyrs Gofrestredig a ategwyd gan ddeddfwriaeth a chanllawiau anstatudol ynghyd ag archwiliad helaeth o elfennau unigryw rôl y Nyrs Gofrestredig, yn ogystal â'r 'llinellau coch' a ystyriwyd yn briodol ar gyfer rôl y Cydymaith

Nyrsio Cofrestredig. Yn dilyn y gweithdy, cynhaliwyd cyfarfod pellach ym mis Awst lle trafodwyd cynnwys yr ymgynghoriad a pharatowyd dogfen ddrafft i'w gymeradwyo ym Mwrdd y Rhaglen ym mis Hydref. Gofynnwyd i aelodau Bwrdd y Rhaglen am eu barn; roedd pwyntiau trafod yn cynnwys a allai'r term 'terfyn triniaeth' gael ei ddeall yn rhwydd gan gleifion a'r cyhoedd ac amseru'r ymgynghoriad. Cymeradwyodd Bwrdd y Rhaglen y ddogfen, yn amodol ar fân ddiwygiadau, gan alluogi sbarduno proses ymgynghori Llywodraeth Cymru.

Ymgynghoriad

Lansiwyd y Paramedrau Ymarfer ar ôl cofrestru ar gyfer yr ymgynghoriad ar rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru (ymgynghoriad rhif WG50275) ym mis Tachwedd 2024. Nod yr ymgynghoriad oedd cytuno ar y Paramedrau Ymarfer ar ôl cofrestru, sy'n gwahaniaethu'n ddiamwys rhwng y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig a'r Nyrs Gofrestredig, gan sicrhau nad yw rôl Nyrs Gofrestredig yn cael ei hamnewid yn GIG Cymru.

Darparodd y ddogfen ymgynghori wybodaeth gefndir yn nodi natur rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig a'i safle o fewn y gweithlu nyrsio; natur generig rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig sy'n cwmpasu pob un o'r 4 maes ymarfer; lefel addysg yn ogystal â dogfennu'r elfennau o rôl Nyrs Gofrestredig sydd wedi'u gosod yn y gyfraith. Mae'r ddogfen ymgynghori lawn i'w gweld [yma](#).

Mae'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad wedi'u nodi isod:

- **Cwestiwn 1:** Ydych chi'n credu dylai'r dasg o arwain, cydlynu, rheoli gofal a bod 'wrth y llyw' gael ei chadw gyda'r Nyrs Gofrestredig, gyda'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn cyfrannu at ofal ond nid ei arwain?
- **Cwestiwn 2:** Ydych chi'n credu dylai asesiad cyfannol o gleifion gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig, gyda'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn cymryd rhan mewn elfennau o asesu cleifion yn unig?
- **Cwestiwn 3:** Ydych chi'n credu dylai cynllunio gofal cleifion mewn modd cyfannol a datblygu cynllun gofal gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig?
- **Cwestiwn 4:** Ydych chi'n credu dylai gwerthusiad cyfannol o ofal cleifion gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig, gyda Chymdeithion Nyrsio Cofrestredig yn cymryd rhan mewn elfennau o werthuso cleifion yn unig?

- **Cwestiwn 5:** Ydych chi'n credu dylai gwaith llywio, ymateb a chefnogi ymholiadau diogelu i achos o gam-drin a/neu esgeuluso oedolion a phlant gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig?
- **Cwestiwn 6:** Ydych chi'n credu dylai trafodaethau gyda chleifion a theuluoedd (neu eraill arwyddocaol) am derfynau triniaeth gael eu cadw gyda'r Nyrs Gofrestredig?
- **Cwestiwn 7:** Ydych chi'n credu dylai trafodaeth glinigol am achos rhagweladwy o ataliad y galon a phenderfyniad 'na cheisier dadebru cardio-anadlol' gael ei chadw gyda'r Nyrs Gofrestredig?
- **Cwestiwn 8:** Ydych chi'n credu dylai atebolrwydd proffesiynol am benderfyniad i ryddhau claf gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig, gyda Chymdeithion Nyrsio Cofrestredig yn cyfrannu at elfennau o'r broses ryddhau yn unig?
- **Cwestiwn 9:** Ydych chi'n credu dylai penderfyniad i atgyfeirio claf at weithiwr proffesiynol neu ddarparwr arall a reoleiddir gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig, gyda Chymdeithion Nyrsio Cofrestredig yn cefnogi'r broses atgyfeirio yn unig?

Roedd degfed cwestiwn yn gofyn a oedd unrhyw beth arall nad oedd wedi'i gynnwys, y teimlwyd ei fod yng nghwmpas y Nyrs Gofrestredig. Roedd tri chwestiwn arall hefyd yn ymwneud ag effaith bosibl ffrwd waith Paramedrau Ymarfer ar y Gymraeg a'r naw nodwedd warchodedig.

Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a daeth i ben ar 12 Rhagfyr 2024, yn dilyn cyfnod o 6 wythnos; daeth 184 o ymatebion i law. Mae trosolwg rhifiadol byr o'r ymatebion i'w weld yn **Nhabl 4**.

Tabl 4: Ymatebion i'r ymgynghoriad

Math o ymatebydd	Ymatebion
Claf / aelod o'r teulu	2
Aelod o'r cyhoedd	9
Aelod o staff y GIG	136
Ymatebion ar y cyd gan Fwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth	4
Sefydliad â diddordeb mewn iechyd	13
Cynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol	1
Roedd yn well ganddynt beidio â dweud	2
Arall (heb ei restru)	17

Mae crynodeb o'r ymatebion meintiol yn cael ei baratoi gan Lywodraeth Cymru ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau ym mis Chwefror 2025. Yna bydd gwaith pellach yn ystod Cam 3 i gynhyrchu adroddiad ansoddol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a fydd yn llywio Paramedrau Ymarfer Cymru. Y bwriad yw i'r ffrwd waith hon gael ei chwblhau yn yr haf, cyn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru yn dilyn hynny.

Bydd yr argymhellion a'r camau gweithredu ychwanegol canlynol yn cael eu hystyried yn y cam nesaf.

AA1

Archwilio opsiynau ar gyfer ymagwedd gyson at 'gwmpas ymarfer' y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn ôl arbenigedd (e.e. defnyddio'r Rhwydwaith Gofal Critigol, Grŵp Nyrsio Newyddenedigol, Fforwm Nyrsio Iechyd Meddwl ac ati).

AA2

Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau i weithio ar y cyd â phrifysgolion i nodi gofynion addysg Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar ôl cofrestru ar gyfer cwmpas ymarfer estynedig, gan gysylltu'r ffrwd waith hon â'r fframwaith ymarfer uwch ar lefel uwch.

Ar gyfer pob elfen o'r ffrydiau gwaith Paramedrau Ymarfer (R2 / AA1 / AA2), mae'n hanfodol bod y gwahaniaethau rhwng Paramedrau a Chwmpas Ymarfer yn cael eu deall yn glir, gan leihau unrhyw gamddealltwriaeth bosibl.

- Mae Paramedrau Ymarfer yn nodi'r terfynau neu'r 'llinellau coch' na chaniateir eu croesi, gan gydnabod elfennau unigryw a nodedig rôl y mae'n rhaid eu diogelu a chydabod y bydd achosion o rolau'n gorgyffwrdd yn digwydd.
- Mae Cwmpas Ymarfer yn amrywio ar draws meysydd clinigol a meysydd ymarfer; mae'n ailadroddol ac yn gallu cael ei lywio gan newid cymdeithasol. Adeg cofrestru, mae'r cwmpas ymarfer yn cael ei bennu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Ar ôl cofrestru, fe'i nodir mewn disgrifiadau swydd a pholisi, wedi'i ategu gan God Ymarfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

5.3 Is-grŵp Addysg

Mae'r safonau addysg ar gyfer y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig (a'r Nyrs Gofrestredig) yn cael eu gosod gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nod y rhaglenni addysg yw rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar fyfyrwyr i ddarparu safonau uchel cyson, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ar y pwynt cofrestru a thrwy gydol eu gyrfaodd. Dyrannwyd y nifer fwyaf o argymhellion i'r is-grŵp addysg (R3, R6, R7, R8, R9, R10, R11, R13, R14, R15, R19, R20) sy'n rhychwantu elfennau academaidd a chlinigol. Cyflawnwyd cynnydd drwy ddarparu arbenigedd sy'n gysylltiedig ag addysg, i hwyluso'r amcanion a'r cyflawniadau a nodir yn y cynllun cyflawni addysg.

5.3.1 Cylch Gorchwyl Addysg

Aelodaeth:

- Cadeirydd – Pennaeth yr Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe.
- Arweinwyr Addysg Nyrsio a PEF o bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru.
- Arweinwyr Rhaglenni Nyrsio ym Mhrifysgolion Cymru.
- Cynrychiolwyr o AaGIC: Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg, Comisiynu ac Ansawdd.
- Arweinydd Rhaglen Band 4 AaGIC.
- Cynrychiolydd o Fforwm Partneriaeth Cymru.
- Uwch gynrychiolydd o'r Coleg Nyrsio Brenhinol.

- Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Arweinwyr Prosiect Band 4 (Nyrsio), Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio (Llywodraeth Cymru)

Roedd yr aelodau cyfetholedig yn cynnwys:

- Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru

Arbenigwyr pwnc i'w cyfethol yn ôl yr angen gyda chytundeb y Cadeirydd.

Etholwyd Dirprwy Gadeirydd o'r aelodaeth ac arweiniodd yr is-grŵp yn absenoldeb y Cadeirydd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd yr is-grŵp yn fisol rhwng Ebrill a Rhagfyr 2024. Er mwyn sicrhau cworwm, roedd angen cynrychiolaeth gan o leiaf 3 Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth, o leiaf 3 Prifysgol ynghyd â chynrychiolaeth o AaGIC. Sefydlwyd grwpiau gorchwyl a gorffen i gefnogi gofynion y cynllun cyflawni.

Mae cylch gorchwyl yr is-grŵp addysg i'w weld yn **Atodiad 8**:

5.3.2 Cynllun Cyflawni Addysg

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer yr is-grŵp addysg yn nodi'r argymhellion a'r camau gweithredu ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer addysg, y canlyniadau disgwyliedig a'r amserlenni arfaethedig, gweler **Tabl 5**.

Tabl 5: Cynllun Cyflawni'r Is-grŵp Addysg

Addysg Argymhellion (R) a Chantau Gweithredu Ychwanegol (AA)	Canlyniadau	Amserlenni Arfaethedig
R3, R13, R19 Addysgwyr Ymarfer a Hwyluswyr Ymarfer Ymroddedig yn gweithio ym mhob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth, am gyfnod pontio (48 mis), i gefnogi Cymdeithion Nyrsio dan	Bydd angen Addysgwyr a Hwyluswyr Ymarfer (PEF) ar ddechrau'r rhaglen addysg Cydymaith Nyrsio Cofrestredig. Felly, yn y lle cyntaf, mae angen i gyllid a dyraniad pro rata fesul Bwrdd	Cam 3

Hyfforddiant a Chymdeithion Nyrsio Cofrestredig.	Iechyd/Ymddiriedolaeth gael eu pennu a'u hariannu gan AaGIC	
R6 Cydwethio â'r Cyngor Deoniaid Iechyd i gyflwyno rhaglen Cydymaith Nyrsio Cofrestredig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddisodli'r Dystysgrif AU L4 a'r llwybr hyblyg i nyrsio.	Cwblhawyd prosesau cymeradwyo'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (rhaglenni newydd / addasu rhaglenni presennol) ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru, ar ôl pasio drwy'r pedwar porth gofynnol, gan fod yn barod i gyflwyno rhaglenni sy'n bodloni Safonau Hyfedredd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer Cymdeithion Nyrsio. Cafodd y rhaglen Tystysgrif AU ei ddileu'n raddol yn dilyn cyfnod pontio i'r Rhaglen Cydymaith Nyrsio. Llwybr hyblyg i Nyrs Gofrestredig yn cael ei ddileu'n raddol ar ôl cyfnod pontio i'r Rhaglen Cydymaith Nyrsio.	Trefnu apwyntiadau gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn 2025 ar gyfer apwyntiadau dilysu porth 4.
R7 Sbarduno trafodaethau cyflym gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i archwilio'r broses o fapio'r Dystysgrif AU, cyn ac ar ôl gweithredu Safonau Nyrs y Dyfodol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn 2018, yn	Cytunodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i raglen bontio fyrrach generig ar gyfer Ymarferwyr Cynorthwyol presennol yng Nghymru, ar gyfer y rhai a enillodd Dystysgrif AU ar ôl gweithredu Safonau Nyrs y Dyfodol 2018.	Cam 3

ogystal â phennu'r trefniadau pwrpasol ar gyfer trosglwyddo'r Ymarferwyr Cynorthwyol presennol i fod yn Gymdeithion Nyrsio Cofrestredig.	Cytunodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i raglen bontio fyrrach ar gyfer Ymarferwyr Cynorthwyol presennol yng Nghymru a enillodd Dystysgrif AU cyn gweithredu Safonau Nyrs y Dyfodol 2018. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cytuno ar broses i alluogi trefniadau rhaglenni pwrpasol ar gyfer unigolion sy'n bodloni'r meini prawf mynediad ond nad ydynt yn perthyn i'r ddau gategori uchod.	
R8 Cwmpasu sgiliau, cymwysterau a chymwyseddau Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sydd wedi cwblhau'r Dystysgrif AU L4 er mwyn archwilio rhaglen bontio i Gydymaith Nyrsio Cofrestredig.	Adolygu cyrhaeddiad addysg gweithwyr Band 4 presennol (a Band 2/3) ledled GIG Cymru i lywio cynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg yn ystod Cam 3.	Rhagfyr 2024 HEB EI GWBLHAU Gwaith yn mynd rhagddo o ran dilysu data
R9 Cydweithio â'r Cyngor Deoniaid Iechyd i sefydlu dull Cymru gyfan o ddatblygu a mapio rhaglen bontio 18 mis L6 o Gydymaith Nyrsio Cofrestredig i BSc Nyrsio.	Mae prosesau cymeradwyo'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (rhaglenni newydd / addasu rhaglenni presennol) ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru wedi'u cwblhau, ar ôl pasio'n llwyddiannus drwy'r pedwar porth gofynnol, i gyflwyno rhaglenni pontio deunaw mis penodol sy'n bodloni Safonau Hyfedredd y Coleg Nyrsio a	Hydref 2024 WEDI'I GWBLHAU

	Bydwreigiaeth ar gyfer Rhaglenni Nyrs y Dyfodol Cyn Cofrestru (Oedolion / Plant / Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu).	
R10 Dylai'r model dysgu seiliedig ar waith gael blaenoriaeth uchel yn null comisiynu AaGIC ar gyfer dysgwyr lefelau 4 a 5.	Mae comisiynu'n cynnwys dysgu seiliedig ar waith fel y prif opsiwn ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd presennol sy'n dymuno ymgymryd â rhaglen astudio Cydymaith Nyrsio y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae comisiynu'n cynnwys dysgu seiliedig ar waith fel y prif opsiwn i Gymdeithion Nyrsio Cofrestredig yn y dyfodol ymgymryd â rhaglen bontio i fod yn Nyrs Gofrestredig.	Cam 3
R11 Gweithio gyda Phrifysgolion i ddefnyddio proses glirio UCAS er mwyn cynyddu'r gronfa o ymgeiswyr ar gyfer y rhaglenni Cydymaith Nyrsio Cofrestredig a Nyrs Gofrestredig.	Mae gan Brifysgolion Cymru lwybr clir i ddenu ymgeiswyr i'r rhaglenni Cydymaith Nyrsio drwy brosesau clirio UCAS. Mae hyn yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n methu â chael y pwyntiau UCAS gofynnol ar gyfer rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth, yn ogystal â darpar ymgeiswyr o raglenni astudio eraill.	Rhagfyr 2024 WEDI'I GWBLHAU
R14, R15, R20	Dylai nodweddion Dirprwyo ac Atebolrwydd gael eu cynnwys	Cam 3

Bydd y Canllawiau Dirprwyo Cymru gyfan yn cael eu diwygio i ymgorffori rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig gan ei hail-lansio gyda chynllun gweithredu cadarn a phrosesau gwerthuso (<i>is-grŵp y gweithlu</i>) Dylai dirprwyo ac atebolrwydd gael eu cynnwys mewn rhaglenni addysg a datblygu a hyfforddiant sefydlu staff clinigol, gydag addysg barhaus ar gyfer Nyrsys Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, ac archwilio mewn ymarfer (yn unol â'r Canllawiau Dirprwyo).	o fewn rhaglenni addysg ar gyfer Nyrsys Cofrestredig, Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.	
AA1 Pennu amlygiad / amser dysgu seiliedig ar ymarfer myfyrwyr ar draws y pedwar maes ymarfer, gan fabwysiadu'r dull Unwaith i Gymru.	Diffinnir cymorth ac amlygiad dysgu seiliedig ar ymarfer ar draws y pedwar maes ymarfer, gan fodloni'r Safonau Goruchwyllo ac Asesu a osodwyd gan y Coleg Nyrsio a Bydwreigiaeth.	Rhagfyr 2024 WEDI'I GWBLHAU
AA2 Ystyried yr effaith ar gapasiti lleoliadau a chydaddoldeb mynediad, ynghyd â chymorth cyson i bob myfyriwr (Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant a BSc).	Mae cydlynwyr lleoliadau prifysgolion a thimau PEF y Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'i gilydd i asesu capasiti a sicrhau cysondeb cyfleoedd o ran lleoliadau a mynediad at oruchwylwyr ac aseswyr, ar draws rhaglenni Cydymaith	Cam 3

	Nyrsio a Rhaglenni Nyrsio BSc ym mlynnyddoedd 1, 2 (a 3) ar gyfer pob myfyriwr.	
AA3 Mabwysiadu dull Cymru gyfan o ddatblygu PAD Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant ac ystyried y gwahaniaethau posibl rhwng Cymdeithion Nyrsio dan Hyfforddiant sy'n cael 'mynediad uniongyrchol' a'r rhai sy'n Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd presennol.	Cynhyrchir PAD Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant Unwaith i Gymru (yn debyg i weithredu'r PAD ar gyfer Safonau Nyrs y Dyfodol yn 2018). Mae anghenion dysgu myfyrwyr mynediad uniongyrchol a myfyrwyr sy'n Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd presennol yn cael eu diwallu.	Rhagfyr 2024 WEDI'I GWBLHAU Bydd y copi terfynol ar gael gan AaGIC ar ôl ei gyfieithu.
AA4 Ystyried a ddylid gorfodi 'statws gweithiwr ychwanegol' ar gyfer Cymdeithion Nyrsio dan Hyfforddiant	Mae penderfyniad wedi'i wneud ynghylch a yw statws gweithiwr ychwanegol ar gyfer pob Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant yn orfodol (Mynediad Uniongyrchol a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd).	Cam 3
AA5 Ystyried rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar gyfer: -Pobl sydd wedi ymddeol sy'n dychwelyd i'r gwaith -Pobl a addysgwyd yn rhyngwladol nad ydynt yn bodloni gofynion addysgol neu ofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.	Mae llwybrau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar waith ar gyfer Nyrsys Cofrestredig sydd wedi ymddeol ac sy'n dymuno dychwelyd i ymarfer fel Cydymaith Nyrsio Cofrestredig / nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol sy'n dewis Cydymaith Nyrsio Cofrestredig fel cyrchfan, nyrsys dan	Cam 3

-Myfyrwyr BSc nad ydynt yn bodloni gofynion cwrs academiaidd.	hyfforddiant sydd rhan o'r ffordd drwy'r rhaglen BSc Nyrsio, sy'n tanberfformio ar addysg lefel 6 ac a allai fod yn fwy addas ar gyfer rhaglen Cydymaith Nyrsio Cofrestredig lefel 5.	
AA6 Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau i weithio ar y cyd â phrifysgolion i nodi gofynion addysg Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar ôl cofrestru ar gyfer cwrpas ymarfer estynedig, gan gysylltu'r ffordd waith hon â'r fframwaith ymarfer uwch ar lefel uwch.	Mae comisiynu'n cynnwys rhaglenni addysgol ôl-gofrestru sy'n addas ar gyfer Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig ac ar gael iddynt. Mae Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau'n cynnwys Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig yn y cynllun addysg ar gyfer cyllid AaGIC ar ôl cofrestru fel rhan o'r comisiynau blynyddol, sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Tymor canolog Integredig (IMTP) y sefydliadau,	Cam 3
AA7 Dylai Prifysgolion ddarparu gwybodaeth gadarn i fyfyrwyr BSc i hwyluso dealltwriaeth o'r rhaglen gradd sylfaen Cydymaith Nyrsio a rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.	Mae cyfathrebiad a gynhyrchwyd ar y cyd ar gyfer Myfyrwyr BSc, sy'n disgrifio rolau'r Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant a'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn fanwl, ar waith rhwng prifysgolion a sefydliadau darparwyr.	Cam 3
AA8 Sefydlu dull Cymru gyfan o adeiladu llwybr o Gydymaith	Sefydlu dull Cymru gyfan o adeiladu llwybr o Gydymaith Nyrsio Cofrestredig i Nyrs	Cam 3

Nyrsio Cofrestredig i Nyrs Gofrestredig ar gyfer dysgwyr sy'n rhagori ar ofynion Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.	Gofrestredig ar gyfer dysgwyr sy'n rhagori ar ofynion Cydymaith Nyrsio Cofrestredig. Ystyried symud i'r rhaglen Nyrs Gofrestredig ar ôl Bwrdd Asesu rhan 1. DS. Rhaid cyflwyno'r cais i symud rhaglenni drwy AaGIC a rhaid bod lle wedi'i gomisiynu ar gael. Proses i'w chytuno i sicrhau nad oes unrhyw gosb am adael cyn gorffen os yw unigolyn yn symud i raglen arall.	

5.3.3 Cynnydd yr is-grŵp

R6

Cydweithio â Chyngor Deoniaid Iechyd Cymru (CoDs) i gyflwyno rhaglen Cydymaith Nyrsio y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddisodli'r rhaglenni Tystysgrif AU L4 a'r llwybrau hyblyg.

Roedd Cadeirydd yr is-grŵp yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i CoDs yn rheolaidd am y ffrydiau gwaith parhaus.

R8

Cwmpasu sgiliau, cymwysterau a chymwyseddau Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sydd wedi cwblhau'r Dystysgrif AU L4 o'r blaen.

Gwnaed llawer iawn o waith mewn perthynas â'r argymhelliad hwn, a'r diben oedd cofnodi data addysg a data gweithlu o'r gweithlu nyrsio Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd

/ Cydymaith Gofal Iechyd ledled GIG Cymru, i lywio gwaith comisiynu addysg a chynllunio'r gweithlu. Mae gwaith gwirio data yn parhau, i'w gwblhau yng Ngham 3.

R9

Cydweithio â'r Cyngor Deoniaid i sefydlu dull Cymru gyfan o adeiladu a mapio rhaglen bontio L6 18 mis o Gydymaith Nyrsio Cofrestredig i BSc nyrsio.

Roedd hon yn ffrwd waith helaeth a chymhleth; sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen, gan gyfethol arbenigwyr mewn meysydd penodol, yn ogystal â cheisio gwybodaeth a chymorth gan sawl prifysgol yn Lloegr sydd wedi datblygu rhaglenni tebyg. Mae'r ddogfen allbwn yn nodi'r egwyddorion allweddol ar gyfer 60 credyd ar lefel 5 i alluogi myfyrwyr i drosglwyddo o raglen Cydymaith Nyrsio Cofrestredig generig i raglen Nyrs Gofrestredig mewn maes penodol, wedi'u mapio i safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ystyriwyd nad oedd angen datblygu unrhyw egwyddorion allweddol sy'n ymwneud â lefelau 4 neu 6 i fodloni gofynion y ffrwd waith hon. Bydd y ddogfen yn parhau i gael ei datblygu a bydd yn llywio gwaith yng Ngham 3.

R11

Gweithio gyda phrifysgolion i ddefnyddio prosesau clirio UCAS er mwyn cynyddu'r gronfa o ymgeiswyr ar gyfer y rhaglenni Cydymaith Nyrsio Cofrestredig a Nyrs Gofrestredig.

Mae gan Brifysgolion Cymru lwybr clir i ddenu ymgeiswyr i'r rhaglenni Cydymaith Nyrsio drwy brosesau clirio Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS). Mae hyn yn berthnasol i ymgeiswyr sy'n methu â chael y pwyntiau UCAS gofynnol ar gyfer rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth, yn ogystal â darpar ymgeiswyr o raglenni astudio eraill. Roedd yr is-grŵp o'r farn bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau gan fod y prifysgolion eisoes yn defnyddio llwybrau clirio.

AA1

Pennu amlygiad / amser dysgu seiliedig ar ymarfer myfyrwyr ar draws y pedwar maes ymarfer, gan fabwysiadu'r dull Unwaith i Gymru.

Roedd y cam ychwanegol hwn i nodi egwyddorion ar gyfer amlygiad Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant, yn ystod dysgu seiliedig ar ymarfer, ar draws y pedwar maes ymarfer,

gan fodloni safonau'r rhaglen a osodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn cynnwys aelodau o AaGIC. Roedd y grŵp o'r farn bod egwyddorion allweddol dull pedwar maes o ymdrin ag amlygiad i leoliadau clinigol yn cynnwys:

- Defnyddio lleoliadau 'lloeren'
- Heriau o ran capasiti lleoliad (yn enwedig o fewn gwasanaethau plant)
- Annog myfyrwyr ar bob lleoliad i fanteisio ar bob cyfle i gadw cofnod o amlygiad i'r pedwar maes ymarfer yn eu PAD
- Yr angen i archwilio amrywiaeth o leoliadau clinigol priodol nad ydynt yn perthyn i'r GIG
- Cydnabyddiaeth y gellir cymeradwyo'r rhan fwyaf o feysydd hyfedredd mewn lleoliad oedolion
- Cydnabyddiaeth bod prifysgolion yn trefnu eu rhaglenni'n wahanol ac felly nad oedd y ddogfen yn rhy ragnodol

Bu 'Arweinydd Lleoliadau' AaGIC yn gweithio'n agos gyda Chadeirydd yr is-grŵp addysg ac Arweinwyr Prosiect Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r ddogfen ar yr egwyddorion sy'n sail i ddysgu seiliedig ar ymarfer Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant a'i amlygiad i'r pedwar maes ymarfer yng Nghymru, a gymeradwywyd gan aelodau'r is-grŵp, hyd nes y bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael yn gynnar yn 2025 (**Atodiad 9**).

Roedd ail fater a drafodwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen yn ymwneud â nifer yr oriau academiaidd ac ymarfer sy'n ofynnol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i fodloni'r rhaglen Cydymaith Nyrsio Cofrestredig. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn caniatáu hanner a dwy ran o dair o'r rhaglen BSc, gyda'r ddau opsiwn yn gofyn am 50% o ymarfer academiaidd a 50% o ymarfer clinigol, gyda'r holl hyfedredd a nodir gan y Cyngor yn cael ei gyflawni. Mae'r ddau wedi'u cyflwyno yn Lloegr, er ei bod yn ymddangos bod y mwyafrif helaeth o blaid yr opsiwn dwy ran o dair. Roedd aelodau'r grŵp o blaid yr opsiwn dwy ran o dair; y rhesymeg dros hynny oedd bod cyfleoedd i gefnogi myfyrwyr sy'n aml o gefndiroedd academiaidd anhraddodiadol o gymharu â myfyrwyr BSc traddodiadol; mwy o hygyrddedd proffesiynol gyda'r cyhoedd, yn ogystal ag ystyried unrhyw oblygiadau i fyfyrwyr sy'n dymuno pontio o Gydymaith Nyrsio Cofrestredig i Nyrs Gofrestredig.

AA3

Mabwysiadu dull Cymru gyfan o ddatblygu Dogfen Asesu Ymarfer (PAD) ar gyfer Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant ac ystyried y gwahaniaethu posibl rhwng Cymdeithion Nyrsio dan Hyfforddiant sy'n cael 'mynediad uniongyrchol' a'r rhai sy'n Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd presennol.

Yn dilyn darn helaeth o waith, datblygwyd y PAD Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant (SNA) yn unol â PAD Nyrs Gofrestredig Unwaith i Gymru 2018, sy'n bodloni Safonau Nyrs y Dyfodol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Penderfynwyd y byddai adlewyrchu'r PAD Nyrs Gofrestredig yn golygu bod goruchwylwyr ac aseswyr yn gyfarwydd â hi ac yn rhoi parhad i Gymdeithion Nyrsio Cofrestredig sy'n dewis ymgymryd â rhaglen bontio i Nyrs Gofrestredig. Mae tri gwahaniaeth allweddol rhwng y PAD Nyrs Gofrestredig a'r PAD Cydymaith Nyrsio Cofrestredig:

- Mae yna 7 plattform ar gyfer Nyrs Gofrestredig a 6 phlattform ar gyfer Cydymaith Nyrsio Cofrestredig
- Mae'r hyfedredd ar gyfer Nyrs Gofrestredig a Chydymaith Nyrsio Cofrestredig yn wahanol
- Mae yna 4 asesiad ar gyfer Nyrs Gofrestredig a 2 asesiad ar gyfer Cydymaith Nyrsio Cofrestredig

Cafodd y ddogfen ei chymeradwyo gan aelodau'r is-grŵp a'i thrafod ym Mwrdd y Rhaglen ym mis Rhagfyr 2024, gan nodi'r gofynion yng Ngham 3 ar gyfer mewnosod graffeg. Bydd hyn yn dibynnu ar 2 benderfyniad allweddol; yn gyntaf, lliwiau'r gwisgoedd Cymru gyfan ar gyfer y Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant a'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ac, yn ail, a fydd gan Gymdeithion Nyrsio dan Hyfforddiant statws gweithiwr ychwanegol. O fewn y cynllun cyflawni ar gyfer yr is-grŵp addysg, cychwynnwyd yr argymhellion a'r camau gweithredu ychwanegol canlynol yng Ngham 2 a byddant yn cael eu datblygu yn y cam nesaf.

R3, R13, R19

Yn ymwneud â chymorth addysgwyr ymarfer a hwyluswyr ymarfer ymroddedig.

R7

Sbarduno trafodaeth gyflym gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i archwilio'r broses o fapio'r Dystysgrif AU ac archwilio trefniadau pwrpasol ar gyfer Ymarferwyr Cynorthwyol presennol i Gydnabod Dysgu trwy Brofiad Blaenorol.

AA8

Sefydlu dull Cymru Gyfan o adeiladu llwybr o Gydymaith Nyrsio Cofrestredig i Nyrs Gofrestredig ar gyfer dysgwyr sy'n rhagori ar ofynion Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.

Bydd yr argymhellion a'r camau gweithredu ychwanegol canlynol yn cael eu hystyried yn y cam nesaf.

R10

Dylai'r model dysgu seiliedig ar waith gael blaenoriaeth uchel o fewn dull comisiynu AaGIC ar gyfer dysgwyr lefelau 4 a 5 – mae comisiynu'n cynnwys dysgu seiliedig ar waith fel y prif opsiwn i Gymdeithion Nyrsio Cofrestredig y dyfodol ymgymryd â rhaglen bontio i raglenni Nyrs Gofrestredig.

R14, R15, R16

Diwygio canllawiau dirprwyo Cymru gyfan er mwyn cynnwys rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, a'u hail-lansio gyda chynllun gweithredu cadarn, sy'n cynnwys prosesau gwerthuso.

AA2

Ystyried yr effaith ar gapasiti lleoliadau a chydraddoldeb mynediad, ynghyd â chymorth cyson i bob myfyriwr.

AA4

Ystyried a ddylid gorfodi 'statws gweithiwr ychwanegol' ar gyfer Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig.

(Gwnaed yr argymhelliad hwn ar ôl nodi, yn ystod Cam 1, brofiadau gwael myfyrwyr yng Nghymru sy'n ymgymryd â'r Dystysgrif Addysg Uwch lefel 4. Soniodd llawer o'r myfyrwyr am y straen enfawr, a oedd yn amhosibl ymdopi ag ef mewn rhai achosion, sy'n gysylltiedig â'r disgygliad i astudio hyd at 20 awr yr wythnos, wrth weithio'n llawn amser a gweithio shifftiau ychwanegol yn aml ochr yn ochr â phwysau arferol cyfrifoldebau teuluol a chyfrifoldebau eraill).

AA5

Ystyried rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig fel llwybrau ar gyfer sawl grŵp o bobl e.e. pobl sydd wedi ymddeol sy'n dychwelyd i'r gwaith.

AA6

Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaeth i weithio ar y cyd â phrifysgolion i nodi gofynion addysg Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ar ôl cofrestru ar gyfer cwmpas ymarfer estynedig.

AA7

Prifysgolion i ddarparu gwybodaeth gadarn i fyfyrwyr BSc i hwyluso dealltwriaeth o'r rhaglen gradd sylfaen Cydymaith Nyrsio a'r rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.

5.4 Is-grŵp y Gweithlu

Er mwyn cynllunio'r gweithlu yn effeithiol, wrth baratoi ar gyfer cyflwyno rôl newydd Cydymaith Nyrsio Cofrestredig i'r gweithlu nyrsio yn GIG Cymru, mae angen casglu, dadansoddi, dehongli a chynllunio data, mewn perthynas â'r argymhellion a ddyrannwyd (R5, R12, R17, R18) a chamau gweithredu ychwanegol.

5.4.1 Cylch Gorchwyl

Aelodaeth

- Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Cadeirydd)
- Pennaeth y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol – Strategaeth a Chynllunio (Llywodraeth Cymru)
- Arweinydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG.
- Nyrs Arwain ar gyfer y gweithlu o bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG
- Arweinydd Rhaglen (Deddf) Staff Nyrsio
- Dirprwy Gyfarwyddwr Datrysiadau Cynhyrchiant Digidol a'r Gweithlu, NWSSP
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, AaGIC
- Arweinydd Trawsnewid y Gweithlu (Nyrsio), AaGIC
- Arweinydd Gwerthuso Swyddi GIG Cymru, Cyflogwyr GIG Cymru

- Arweinydd Cyllid neu Gomisiynu o AaGIC
- Cynrychiolydd o Fforwm Partneriaeth Cymru
- Uwch gynrychiolydd o'r Coleg Nyrsio Brenhinol
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Arweinwyr Prosiect Band 4 (Nyrsio), Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio (Llywodraeth Cymru)

Aelodau Cyfetholedig (*fel sy'n ofynnol gyda chytundeb y Cadeirydd*):

- Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru
- Arbenigwyr Pwnc

Etholwyd dau Is-gadeirydd o blith yr aelodau i arwain yr is-grŵp yn absenoldeb y Cadeirydd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd yn fisol rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2024. Sefydlwyd grwpiau gorchwyl a gorffen i gwblhau'r gwaith angenrheidiol, fel y nodir yn y cynllun cyflawni. Er mwyn sicrhau cworwm, roedd angen cynrychiolaeth gan o leiaf 3 Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth ac o leiaf 3 Prifysgol, ynghyd â chynrychiolaeth o AaGIC. Mae'r cylch gorchwyl i'w weld yn **Atodiad 10**.

5.4.2 Cynllun Cyflawni'r Gweithlu

Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer is-grŵp y gweithlu yn nodi'r argymhellion a'r camau gweithredu ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y gweithlu, y canlyniadau disgwyliedig a'r amserlenni arfaethedig, gweler **Tabl 6**.

Tabl 6: Cynllun Cyflawni'r Gweithlu

Y Gweithlu Argymhellion (R) a Chantau Gweithredu Ychwanegol (AA)	Canlyniadau	Amserlenni Arfaethedig
R5a Diwygio a diweddarau'r Fframwaith Sgiliau a Gyrfaedd cenedlaethol presennol ar gyfer	Mae Fframwaith Sgiliau a Gyrfaedd cenedlaethol diwygiedig drafft yn barod i'w ledaenu ar ôl cadarnhau	Cam 3.

Gweithwyr Cymorth Gofal lechyd	newidiadau deddfwriaethol (gyda rôl nyrsio Gweithwyr Cymorth Gofal lechyd Band 4 wedi'i dileu).	
R5b Creu cod galwedigaethol newydd ar gyfer Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.	Cynhyrchir cod galwedigaethol i baratoi ar gyfer cyflwyno rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru.	Rhagfyr 2024. Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant WEDI'I GWBLHAU. Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn dibynnu ar adolygiad ESR cenedlaethol.
R12 ac R17 Dechrau'r broses o fapio a chynllunio'r gweithlu gan Fyrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau, mewn cydweithrediad â chomisiynu AaGIC, gan alinio â'r broses IMTP, i baratoi ar gyfer cyflwyno Cydymaith Nyrsio Cofrestredig fel rôl gyrchfan a cham tuag at fod yn Nyrs Gofrestredig. (Ystyried datblygu màs critigol o Gymdeithion Nyrsio Cofrestredig fel rôl gyrchfan ynghyd â chynllunio ar gyfer y nifer a fydd yn defnyddio Cydymaith Nyrsio	Mae pob Bwrdd lechyd ac Ymddiriedolaeth wedi cynnwys niferoedd Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig (rôl gyrchfan a phont i fod yn Nyrs Gofrestredig) o fewn eu IMTP, er mwyn galluogi proses gomisiynu AaGIC wrth baratoi ar gyfer dechrau ym mlwyddyn academiaidd 2025/26. Datblygu egwyddorion cynllunio'r gweithlu, gan ategu Canllawiau presennol AaGIC.	Rhagfyr 2024. Dogfen egwyddorion WEDI'I CHWBLHAU. Bydd cynllunio a mapio'r gweithlu yn broses ailadroddol a bydd yn parhau i Gam 3.

Cofrestredig fel pont i fod yn Nyrs Gofrestredig).		
R18 Drwy'r cyfnod pontio o Ymarferydd Cynorthwyol i Gydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru, dylid blaenoriaethu, cefnogi a rheoli Ymarferwyr Cynorthwyol mewn ffordd sensitif, i gynnwys rheolaeth gadarn o drefniadau newid ar gyfer y Cynorthwywyr Ymarferol/Band 4 hynny nad ydynt yn dewis pontio.	Mae cynllun defnyddio cenedlaethol clir ar gyfer rheoli newid i'w weithredu o fewn pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth.	Rhagfyr 2024. Dogfen egwyddorion WEDI'I CHWBLHAU. Gweinyddu trwy brosesau AD sefydliadau yn ystod Cam 3.
R14, R15, R20 Bydd y Canllawiau Dirprwyo Cymru gyfan yn cael eu diwygio i ymgorffori rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig gan ei hail-lansio gyda chynllun gweithredu cadarn a phrosesau gwerthuso (<i>is-grŵp y gweithlu</i>) <i>Dylai dirprwyo ac atebolrwydd gael eu cynnwys mewn rhaglenni addysg a datblygu a hyfforddiant sefydlu staff clinigol, gydag addysg barhaus ar gyfer Nyrsys Cofrestredig a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, ac archwilio ymarfer (yn unol â'r Canllawiau Dirprwyo).</i>	Mae canllawiau dirprwyo diwygiedig a chynllun gweithredu a gwerthuso yn cael eu drafftio yn barod i'w lledaenu, yn dilyn newid deddfwriaethol angenrheidiol.	Cam 3.

AA1 Ystyried y defnydd o Atodiad 21 ar gyfer diogelu cyllid band 5.	Mae templed cynllunio'r gweithlu yn cael ei ddrafftio at ddefnydd gweithredol, gan alluogi cymhwyso Atodiad 21 Agenda ar gyfer Newid yn ymarferol.	Cam 3.
AA2 Diweddarau'r broses Symleiddio Myfyrwyr i ymgorffori Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, gan nodi pedwar maes ymarfer.	Mae'r broses Symleiddio Myfyrwyr yn cael ei diwygio i gynnwys y rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.	Cam 3.
AA3 Diweddarau'r Datganiad Sefyllfa Cymru Gyfan parthed: Tiwtoriaeth a Goruchwyliaeth Glinigol Adferol i ymgorffori'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.	Mae naratif yn cael ei ddrafftio i'w gynnwys yn y datganiad sefyllfa genedlaethol ar gyfer tiwtoriaeth a goruchwyliaeth glinigol adferol, wrth baratoi ar gyfer newid deddfwriaethol.	Cam 3.
AA4 Cadarnhau'r teitl/teitlau cyffredinol ar gyfer Cymdeithion Nyrsio yng Nghymru e.e.: Cydymaith Nyrsio dan Hyfforddiant (SNA) ar gyfer y rhai sydd mewn hyfforddiant (gan nodi mynediad uniongyrchol a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd) a Chydymaith Nyrsio Cofrestredig (RNA) ar ôl cymhwyso.	Cytunir ar y teitlau ar gyfer y Cydymaith Nyrsio cyn ac ar ôl cofrestru.	Hydref 2024. WEDI'I GWBLHAU.
AA5 Cadarnhau'r wisg genedlaethol ar gyfer Cymdeithion Nyrsio dan	Mae cynnig ar gyfer y wisg genedlaethol yn cael ei ddrafftio ar gyfer ymgynghoriad (posibl).	Cam 3.

Hyfforddiant a Chymdeithion Nyrsio Cofrestredig.		
AA6 Datblygu disgrifiad swydd generig Cymru gyfan ar gyfer rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig	Mae disgrifiad swydd cenedlaethol y cytunwyd arno yn bodoli ar gyfer Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru.	Cam 3.
AA7 Cadarnhau bod prosiect Band 4 yn gysylltiedig â chynllun cadw staff AaGIC	Prosiect Cydymaith Nyrsio Cofrestredig / Band 4 i ffurfio rhan o gynllun cadw staff Cymru	Hydref 2024. WEDI'I GWBLHAU.
AA8 Sicrhau bod y bwriad polisi o gyflwyno Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru wedi'i angori yng nghynllun gweithlu Nyrsio y GIG	Mae adran nyrsio ddiwygiedig ddrafft o gynllun gweithlu Nyrsio y GIG AaGIC yn barod i'w lledaenu ar ôl cadarnhau newidiadau deddfwriaethol (gyda rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig Band 4 wedi'i chynnwys).	Hydref 2024. WEDI'I GWBLHAU. <i>Nid yw'r cynllun gweithlu nyrsio wedi'i gymeradwyo eto ond mae naratif ar y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig wedi'i gynnwys.</i>
AA9 Dull Unwaith i Gymru o gyfathrebu'r bwriad polisi i gyflwyno'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig fel rhan o'r broses recriwtio Band 4.	Geiriad Unwaith i Gymru ar gyfer hysbyseb a gynhyrchwyd ar gyfer recriwtio Band 4 i'w ddefnyddio yn ystod cam rhagbaratoi y prosiect.	Cam 3.

5.4.3 Cynnydd yr Is-grŵp

Gofynnwyd am gyngor gan Gydwasaethau, a awgrymodd rhannu argymhelliad 5 yn ddwy ran. 5a: Diwygio a diweddarau'r Fframwaith Sgiliau a Gyrfaedd cenedlaethol presennol ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd - mae rhagor o wybodaeth am 5a i'w gweld yn ddiweddarach yn yr adran hon, gyda 5b wedi'i gyflwyno isod.

R5b

Creu cod galwedigaethol newydd ar gyfer Cydymaith Nyrsio Cofrestredig.

Ar ôl cytuno ar y teitlau cyn ac ôl cofrestru yn yr is-grŵp addysg a chael cadarnhad gan Fwrdd y Rhaglen, dechreuodd y gwaith ar yr argymhelliad hwn.

Mae angen sawl newid i'r Cofnod Staff Electronig (ESR):

- Symud y swydd Cydymaith Nyrsio Cofrestredig o'r 'Grŵp Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol' i'r 'Grŵp Nyrsio a Bydwreigiaeth'.
 - Byddai'r newid arfaethedig hwn yn alinio'r holl rolau nyrsio a bydwreigiaeth a reoleiddir.
 - Byddai hefyd yn cyd-fynd â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n nodi eu prosesau ailddilysu a'u Cod Ymarfer ar gyfer Nyrsys, Bydwragedd a Chymdeithion Nyrsio.

Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Tachwedd gyda'r grŵp ESR cenedlaethol, a chytunwyd i newid y teitl o Gydymaith Nyrsio 'Hyfforddi' i Gydymaith Nyrsio 'dan Hyfforddiant'.

Cafodd y cais i symud y categori Cydymaith Nyrsio Cofrestredig ei ohirio gan fod adolygiad cenedlaethol o'r system yn mynd i gael ei gynnal. Roedd hyn yn cynnwys cais i:

- Sefydlu adran 'myfyriwr' o fewn ESR, lle byddai'r cofnod staff ar gyfer yr holl staff cyflogedig sy'n ymgymryd â rhaglenni addysg ffurfiol yn cael ei gadw.
- Ailenwi'r grŵp Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig yn grŵp 'Nyrsio, Bydwreigiaeth a Chydymaith Nyrsio'.
- Mae cynigion ar gyfer newid yn adlewyrchu Codau Galwedigaeth ar gyfer Technegwyr Fferylliaeth, Technegwyr Deintyddol ac Optegwyr Cyflenwi sydd wedi'u cofrestru gyda'r corff proffesiynol perthnasol ac sydd yn yr un Grŵp Staff

Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol Ychwanegol â Fferyllwyr ac
Optometryddion

Gellir ailystyried hyn yn 2025 os nad yw'r newidiadau gofynnol wedi'u gwneud fel rhan o'r adolygiad cenedlaethol cyffredinol.

R12 a 17

Dechrau'r broses gadarn o fapio a chynllunio'r gweithlu gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, mewn cydweithrediad â chomisiynu AaGIC, gan alinio â'r broses IMTP, i baratoi ar gyfer cyflwyno Cydymaith Nyrsio Cofrestredig fel rôl gyrchfan a cham tuag at fod yn Nyrs Gofrestredig. (Ystyried datblygu màs critigol o Gymdeithion Nyrsio Cofrestredig fel rôl gyrchfan ynghyd â chynllunio ar gyfer y nifer a fydd yn defnyddio Cydymaith Nyrsio Cofrestredig fel pont i fod yn Nyrs Gofrestredig).

Mae hon wedi bod yn ffrwd waith arwyddocaol a ddechreuodd gyda chyflwyniad i Ddirprwy Gyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ac yna sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Mehefin 2024, gyda chynrychiolaeth o'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ac Uwch Nyrsys o bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth, Llywodraeth Cymru ac AaGIC.

Ystyriwyd bod angen datblygu papur briffio 'egwyddorion allweddol' sy'n ymwneud yn benodol â rôl y Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, i gefnogi modelu'r gweithlu ar lefel uchel (gweler **Atodiad 11**), a'i ddefnyddio ochr yn ochr â gwybodaeth bresennol am egwyddorion cynllunio'r gweithlu AaGIC. Yn ogystal, roedd angen i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau fapio a chynllunio'r gweithlu yn gadarn, mewn cydweithrediad ag AaGIC, a sicrhau aliniad â phrosesau'r IMTP, i baratoi ar gyfer cyflwyno'r rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yng Ngham 3.

Trafododd y grŵp hefyd y goblygiadau ariannol tebygol sy'n gysylltiedig â'r ffrydiau gwaith, gan nodi'r gofyniad i is-grwpiau nodi'r meysydd gwaith penodol a fyddai angen cymorth ariannol.

Galwodd aelodau'r is-grŵp am amserlen realistig ar gyfer symud o'r model presennol o Ymarferwyr Cynorthwyol i'r rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig newydd. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol nid yn unig i'r Ymarferwyr Cynorthwyol presennol benderfynu ar eu dyfodol, sef a ddylent bontio i fod yn Gydydymaith Nyrsio Cofrestredig, ond hefyd i randdeiliaid eraill, gan gynnwys cynllunwyr y gweithlu, timau addysg sefydliadau a phrifysgolion, comisiynwyr ac eraill, i gael cyfnod pontio clir i gefnogi pob agwedd ar gynllunio a gweithredu. Oherwydd arwyddocâd hyn, cafodd ei uwchgyfeirio i Fwrdd y Rhaglen. Aeth y Prif Swyddog Nyrsio ati wedyn i ysgrifennu at Fforwm Partneriaeth Cymru yn gofyn am syniad o'r amserlenni. Rhoddodd Arweinwyr Prosiect Band 4 Llywodraeth Cymru gyflwyniad i'r fforwm ar 20 Tachwedd, gan nodi'r dystiolaeth o Gam 1 i gefnogi'r safbwynt polisi o un rôl Band 4 yn unig ym maes nyrsio, gan gynnwys:

- Roedd clinigwyr ac academyddion yng Nghymru a Lloegr yn gryf o blaid un rôl ac yn unfrydol eisiau rôl a reoleiddir.
- Roedd gan glinigwyr ac academyddion yn Lloegr ddigon o bryderon ynghylch cydfodolaeth y rolau Ymarferydd Cynorthwyol a Chydymaith Nyrsio Cofrestredig, gan ddweud bod y ddwy rôl yn achosi dryswch a thensiwn gyda 2 gwmpas ymarfer gwahanol; roedd symud i un rôl yn lleihau amwysedd, yn sicrhau safonau cyson, a theimlwyd bod Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn fwy perthnasol yn glinigol.
- Lefel addysg Ymarferydd Cynorthwyol yw Lefel 4, a lefel addysg Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yw L5, gan ddarparu sgiliau meddwl beirniadol, dadansoddi, dehongli gwybodaeth a datrys problemau sy'n cefnogi ymarfer diogel ac effeithiol.
- Comisiynu lleoedd prifysgol yn ddarbodus ar gyfer y rhaglen Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, gan sicrhau niferoedd hyfyw o leoedd ar gyfer Ymarferwyr Cynorthwyol presennol. Gall hyn gael ei gyfaddawdu os nad oes pwynt gorffen realistig ar gyfer trefnu i bontio o Ymarferydd Cynorthwyol i Gydydymaith Nyrsio Cofrestredig.
- Roedd llawer mwy o hyder pan oedd Nyrsys Cofrestredig yn dirprwyo i aelodau cofrestredig o'r tîm nyrsio.
- Mae blaenoriaethu Ymarferwyr Cynorthwyol presennol yn allweddol, gan y gallai unrhyw oedi yn y pontio fod yn niweidiol wrth i nifer y Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig 'newydd i ofal' fynd i mewn i'r gweithlu, a thrwy hynny leihau nifer ac amrywiaeth y swyddi Cydymaith Nyrsio Cofrestredig sydd ar gael.

